# A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

*Dylid darllen yr asesiad effaith hwn ar y cyd â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'r Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol.*

## Nodau'r Polisi a'r Effeithiau a Fwriedir

Bydd gwaharddiad ar gyflenwi fêps untro yng Nghymru yn dod i rym ar 1 Mehefin 2025 a bydd yn cydweddu â gwaharddiadau sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn 2025.

Fêps untro
Mae fêps yn ddyfeisiau batri sy'n gwresogi hylif (nicotin fel arfer, er bod hylifau nad ydynt yn nicotin hefyd ar gael) i gynhyrchu aerosol sy'n cael ei fewnanadlu. Gwerthir rhai y gellir eu hailddefnyddio a rhai untro, ac nid oes modd ailwefru nac ail-lenwi'r rhai untro, sydd wedyn yn cael eu taflu pan fydd y pŵer neu'r e-hylif wedi'i dihysbyddu. Fel arfer, caiff fêps untro eu cyflenwi wedi'u llenwi'n barod â 2ml o e-hylif (tua 600 o 'byffiau') ac uchafswm o 2% o nicotin.

Bydd ein deddfwriaeth ond yn gwahardd fêps untro ac mae hyn yn cynnwys y fersiynau nicotin a'r rhai nad ydynt yn cynnwys nicotin. Bydd fêps y gellir eu hailddefnyddio yn parhau i fod ar gael. Mae ein deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchu sylweddol o fêps untro a'r gwaredu amhriodol ohonynt.

Prif nod – Mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol
Mae'r cynnydd ym mhoblogrwydd fêps untro, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, wedi arwain at gynnydd sylweddol ym maint y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu a'r adnoddau a ddefnyddir i greu'r cynhyrchion hyn. Yn sgil hyn, bu'r pryder ynghylch eu heffaith ar yr amgylchedd yn cynyddu. Yn 2023, amcangyfrifodd ymchwil gan Material Focus fod dros 5 miliwn o fêps untro naill ai'n cael eu taflu fel sbwriel neu eu taflu'n wastraff cyffredinol bob wythnos yn y DU, bron i bedair gwaith yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Dim ond 17% o'r rhai a holwyd ar gyfer yr astudiaeth a ddywedodd eu bod yn ailgylchu eu fêps.

Pan fydd fêps untro yn cael eu taflu fel sbwriel, maent yn cyflwyno plastig, nicotin, metelau trwm, plwm, mercwri a batris ïon lithiwm i'r amgylchedd naturiol. Gall hyn arwain at y cemegion yn halogi dyfrffyrdd a phridd a gallant hefyd fod yn wenwynig ac yn niweidiol i fywyd gwyllt. Pan gânt eu taflu fel sbwriel, gall y casin plastig gael ei falu'n ficroblastigau niweidiol. Canfu arolygon a gynhaliwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus gynnydd sydyn ym mhresenoldeb fêps untro yn ein hamgylchedd. Rhwng 2023/24, daethpwyd o hyd i fêps untro ar 10.2% o strydoedd ledled Cymru, ac amcangyfrifir bod 6700 o fêps yn gorwedd fel sbwriel ar ein strydoedd ar unrhyw un adeg.

Yn yr un modd ag eitemau trydanol eraill, ni ddylid rhoi fêps mewn bin gwastraff cyffredinol yn enwedig gan eu bod yn gallu peri risg tân oherwydd eu batris lithiwm. Mae ymchwil wedi amcangyfrif bod batris ïon lithiwm yn gyfrifol am tua 48% (dros 200) o’r holl danau gwastraff sy’n digwydd yn y DU bob blwyddyn. Hefyd gwneir fêps untro yn y fath fodd fel eu bod yn anodd eu hailgylchu.

Mae effeithiau eraill ar yr amgylchedd o weithgynhyrchu fêps untro hefyd yn peri pryder. Mae fêp untro nodweddiadol yn cynnwys plastig, copr, cobalt a batri lithiwm. Mae lithiwm a chobalt yn hanfodol i gynhyrchu dyfeisiau electronig, batris ac i gynhyrchu ynni. Mae’r cynnydd yn y galw am fêps untro wedi arwain at gynnydd yn y galw am y deunyddiau crai hanfodol hyn. Mae ymchwil wedi amcangyfrif bod cyfanswm y fêps untro a brynir bob blwyddyn yn cynnwys digon o lithiwm i ddarparu batris ar gyfer 5,000 o gerbydau trydan. Mae hwn yn wastraff adnoddau gwerthfawr mewn cynnyrch sydd ag oes fer iddo, sydd yn brin yn cael ei ailgylchu a lle mae dewis amgen eisoes ar gael.
Yn ogystal â cholli adnoddau yn yr economi, mae effeithiau amgylcheddol hefyd wrth echdynnu deunyddiau crai, a chreu a gweithgynhyrchu fêps untro. Yn fwyaf nodedig, mae hyn yn cynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr a’r defnydd o ddŵr yn sgil eu gweithgynhyrchu. Drwy gael gwared ar y cynhyrchion hyn o’r farchnad, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau uniongyrchol wrth ymrwymo i fynd i’r afael â newid hinsawdd a’r argyfwng hinsawdd.

Manteision iechyd ychwanegol

Yn ogystal â'r effaith amgylcheddol sylweddol, deallir bod fêps untro yn sbarduno’r cynnydd diweddar mewn fepio ymhlith pobl ifanc. Mae data yn dangos bod nifer y plant a phobl ifanc sy’n defnyddio fêps wedi treblu yn ystod y tair blynedd diwethaf. Oherwydd eu cynnwys nicotin a’r niwed hirdymor anhysbys, mae fepio yn peri risg o niwed a chaethiwed i blant. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 5% o ddysgwyr oed uwchradd yn defnyddio fêps yn wythnosol a fêps untro yw’r math mwyaf cyffredin o ddyfais a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc.

Mae Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru, *Siapio Ein Hiechyd,* a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023, yn dweud “*Er ei bod yn wir bod y cynhyrchion hyn yn parhau i fod yn gymharol newydd a bod effaith hirdymor eu defnydd yn datblygu o hyd, mae’n amlwg bod rhaid bod yn ofalus er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc a phobl nad ydynt yn smygu. Rydym yn wynebu perygl gwirioneddol yn y DU o greu cenhedlaeth newydd o bobl ifanc sy’n gaeth i nicotin oni bai ein bod yn gweithredu ar frys. Felly, mae’n rhaid i ni sicrhau ein bod yn dysgu o’n profiad gyda thybaco a sicrhau ein bod yn gweithio mor galed â phosibl i atal plant a phobl ifanc rhag defnyddio e-sigaréts*”.

Nodau ehangach y polisi

Mae gan Lywodraeth Cymru agenda gynaliadwyedd uchelgeisiol ac mae wedi ymrwymo i fynd i'r afael â llygredd amgylcheddol. Er y cydnabyddir yn rhyngwladol cyfraddau ailgylchu Cymru, mae gwastraff plastig yn parhau i fod yn broblem. Mae eitemau plastig untro yn gyfran sylweddol o'r sbwriel sydd ar ein strydoedd, yn ein parciau ac yn ein moroedd. Mae dileu eitemau plastig untro o'r ffrwd wastraff ac atal cynhyrchion o'r fath rhag mynd i mewn i'r amgylchedd yn y lle cyntaf, yn flaenoriaeth allweddol yng Nghymru. Mae'r amcan wedi'i ymgorffori yn nodau ac uchelgeisiau, deddfwriaeth sylfaenol a strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn gosod ymrwymiad i "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn". O dan yr adduned gwmpasog hon, mae ymrwymiad penodol i "Ddeddfu i ddiddymu'r defnydd o blastigau untro sydd yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel".

Mae cyflwyno gwaharddiad ar argaeledd y cynhyrchion problematig diangen hyn yn rhan o becyn o fesurau ehangach y mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â nhw. Nod y mesurau hyn yw lleihau'r effaith negyddol y mae taflu sbwriel, llygredd plastig a newid hinsawdd yn ei chael ar ein hamgylchedd ac ar iechyd plant a phobl ifanc, a allai fod yn agored i niwed sylweddau gwenwynig, gwastraff amgylcheddol, a bod yn gaeth i nicotin o fêps untro. Nod y polisi hefyd yw atal normaleiddio fepio ac ysmygu ymhlith plant a phobl ifanc.

Ein nod yw sbarduno newid diwylliannol lle caiff gwastraff diangen ei atal, a deunyddiau a daflir eu hystyried yn adnoddau yn hytrach na gwastraff. Mae cyflwyno'r cynigion hyn yn gam allweddol yn ein dull fesul cam o symud i ffwrdd o'n diwylliant gwastraffus, trwy ddileu'r cynhyrchion hyn o'r gadwyn gyflenwi byddwn yn helpu i atal y math hwn o lygredd rhag digwydd yn y lle cyntaf. Bydd hefyd yn annog busnesau i symud tuag at greu dewisiadau amgen mwy ailddefnyddiadwy, haws eu hailgylchu a llai niweidiol i'r amgylchedd. Bydd y cynigion hefyd yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r niwed y mae'r cynhyrchion hyn yn ei wneud i'r amgylchedd.

## Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

### Ymgynghori ar y cynigion

Ynghyd â Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad pedair gwlad, *Creu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc,* a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ystod o gynigion, gan gynnwys ystyried gwahardd gwerthu a chyflenwi fêps untro a mesurau eraill i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pum cwestiwn yn ymwneud â chynigion i gyfyngu ar gyflenwi neu werthu fêps untro. Derbyniwyd 27,921 ymateb i'r ymgynghoriad a daeth 1,018 o'r rhain o Gymru.

Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad pedair gwlad yn dangos cefnogaeth glir o blaid cyfyngiadau ar werthu a chyflenwi fêps untro. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y mesurau arfaethedig i leihau sbwriel cynhyrchion plastig untro yn ogystal â mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc. Roedd pryderon ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r gwaharddiad yn cynnwys yr effaith ar raglenni rhoi'r gorau i ysmygu a'r awydd i ganolbwyntio ar wella rheoli gwastraff yn hytrach na chyflwyno gwaharddiadau.

Roedd yr holl ymgysylltu yn ymlynu wrth ein hymrwymiadau o dan Gonfensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco (FCTC) Erthygl 5.3. Mae hyn yn sicrhau bod ein polisïau rheoli tybaco wedi'u diogelu rhag buddiannau masnachol a buddiannau breintiedig eraill y diwydiant tybaco.

## Trosolwg o ymatebion Cymru

O ran yr effeithiau amgylcheddol, roedd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad bryder am wastraff adnoddau oherwydd diffyg darpariaeth cyfleusterau ailgylchu, a'r niwed yr oedd mwyngloddio lithiwm am fatris fêps yn ei gael ar yr amgylchedd. Codwyd pryderon hefyd ynghylch y cynnydd mewn gwastraff plastig, cemegion niweidiol yn trwytholchi i'r amgylchedd a'r risg o danau o ganlyniad taflu amhriodol fêps untro.
Roedd cefnogaeth o blaid cyflwyno gwaharddiad hefyd yn canolbwyntio ar bryderon bod plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at fêps untro a'u heffeithiau niweidiol posibl ar iechyd. Roedd pwyslais cryf ar orfodi i atal gwerthu fêps untro i blant a phobl ifanc, yn ogystal ag effaith negyddol posibl ar blant a phobl ifanc sy'n ddibynnol ar nicotin (h.y. lleihau mynediad at gynnyrch y mae'r grŵp hwn yn fwy tebygol o'i ddefnyddio) a allai, heb gymorth digonol, gael effaith negyddol ar ddysgu a llesiant oherwydd na fyddent mwyach yn gallu cael gafael ar fêps untro.

Roedd Plant yng Nghymru o'r farn bod digon o dystiolaeth yn amlinellu'r effaith niweidiol y mae fêps untro yn ei chael ar yr amgylchedd ac y dylai gwahardd fêps untro yn gyfan gwbl fod yn rhan o gyfres o fesurau i fynd i'r afael â'r broblem ehangach o fepio ymhlith pobl ifanc.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru, "*Ar hyn o bryd e-sigaréts yw un o'r prif faterion mae plant a phobl ifanc wedi trafod gyda fi. Mae plant a phobl ifanc o bob oedran, gan gynnwys plant oed ysgol gynradd, yn poeni o achos effaith iechyd, effaith ar yr amgylchedd a pha mor boblogaidd ydy defnydd e-sigaréts a'r pwysau gan gyfoedion i'w defnyddio. Byddwn i yn cefnogi gwahardd e-sigaréts untro, a dwi'n edrych ymlaen at glywed sut gall plant a phobl ifanc siapio datrysiadau pellach i'r mater hwn".*

Ymatebodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymgynghoriad y DU gan ddweud *“Mae'r cynnydd sylweddol mewn fepio ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf yn cyd-fynd â'r defnydd eang o fêps tafladwy ac mae consensws clir bod argaeledd a marchnata'r dyfeisiau hyn yn benodol wedi ysgogi'r cynnydd hwn gan eu bod yn cynnig cyflwyniad rhad i fepio sy’n hawdd ei ddefnyddio ac sydd ar gael yn eang. Yn ogystal â'r cysylltiad rhwng argaeledd fêps a fepio ymhlith pobl ifanc, mae yna bryderon clir hefyd ynghylch effaith amgylcheddol fêps tafladwy. Sonnir am gynnydd mewn sbwriel fêps yn ogystal â phroblemau gyda dyfeisiau'n mynd ar dân mewn gwastraff a chyflwyno cemegau a gwastraff trydanol i'r amgylchedd. Gan hynny, rydyn ni’n credu bod cyfyngiadau ar y categori hwn o fêps yn hanfodol am amryw o resymau iechyd cyhoeddus”.*

Roedd ymatebion eraill gan unigolion yng Nghymru yn dilyn thema debyg:

*"Maen nhw'n dinistrio'r amgylchedd gan nad oes modd eu hailgylchu, dylid eu gwneud yn ailgylchadwy man lleiaf gan fod batri yn mynd i wastraff bob tro y prynir un, os ydyn ni’n gwahardd plastigau ar hyn o bryd, pam fod gwahardd fêps tafladwy yn wahanol? Os rhywbeth mae’n waeth”.* ***(Ymateb unigolyn)***

*“Oherwydd y sbwriel wrth eu taflu nhw, a’u heffaith ar yr amgylchedd fel bonion sigaréts”.* ***(Ymateb unigolyn)***

*"Am resymau amgylcheddol syml, maen nhw'n wastraffus".* ***(Ymateb unigolyn)***

*“Maen nhw’n beryglus, ac mae plant jest yn eu gadael nhw yn y stryd i geir yrru drostyn nhw. Mae gwefr ynddyn nhw o hyd, a bydd nifer o gerbydau yn gyrru drostyn nhw, mae llawer y tu allan i ysgolion wedi’u malu ac maen nhw hefyd yn niweidiol i’r amgylchedd ac yn beryglus i weithwyr y cyngor eu codi wrth gasglu sbwriel. Ni ddylid caniatáu fêps o gwbl yn fy marn i os ydych chi’n poeni cymaint am y blaned ac am iechyd pobl”.* ***(Ymateb unigolyn)***

## Ymgysylltu wedi’i dargedu â phlant a phobl ifanc yn 2024

Hoffem i blant a phobl ifanc chwarae rhan flaenllaw wrth sbarduno’r pontio i Gymru sero net ac economi fwy cylchol fel y nodir yn ein strategaeth Mwy Nag Ailgylchu. Rydym wedi ymrwymo i gymryd camau pellach i leihau effeithiau amgylcheddol plastig untro diangen i helpu i gyflawni ein huchelgais o Gymru ddi-sbwriel a di-dipio. Rydym hefyd am ddefnyddio angerdd a brwdfrydedd ein pobl ifanc a’r ysgogiadau sydd gennym megis ein rhaglenni addysg amgylcheddol, i sicrhau cynnwys plant a phobl ifanc yn gynnar yn ein syniadau am y dyfodol a dylanwadu newid ymddygiad cadarnhaol a meddwl creadigol ymhlith ein cenhedlaeth nesaf.

Mae plant a phobl ifanc wedi newid yn llwyr lefel yr ymwybyddiaeth a phryder am effeithiau amgylcheddol sbwriel plastig untro, ailgylchu a newid hinsawdd ym mhob rhan o'r gymdeithas, gan newid telerau'r ddadl yn gyfan gwbl. Y prawf mwyaf heriol i'n cynlluniau fydd bodloni disgwyliadau plant a phobl ifanc a fydd yn ysgwyddo llawer mwy o'r baich costau a'r effaith ar ein hamgylchedd nag unrhyw berson heddiw mewn grym.

Mae mentrau ledled Cymru yn cefnogi pobl ifanc i gymryd camau i ymateb i wahanol bryderon amgylcheddol, gan gynnwys materion megis yr argyfwng hinsawdd. Mae Gweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu llwyfannau i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi a'u lleisiau yn cael eu clywed ledled Cymru. Mae'r rhaglen Eco-Sgolion yn llwyfan sydd gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc i ddatblygu ymddygiadau cynaliadwy a chyflawni blaenoriaethau newid hinsawdd ac adnoddau naturiol. Rydym hefyd yn cefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc drwy gyllid grant Plant yng Nghymru i redeg Cymru Ifanc, model cyfranogiad sylfaenol Llywodraeth Cymru i ddod â barn plant a phobl ifanc i mewn i ddatblygu polisïau, rhaglenni a deddfwriaeth.

Ar ôl cau'r ymgynghoriad llawn ym mis Rhagfyr 2023, cynhaliom ymgysylltu wedi'i dargedu yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc trwy arolygon ar-lein i archwilio ymhellach yr effeithiau y byddai ein cynigion yn eu cael arnynt ac i ymateb i unhrhyw ymholiadau.

Ar 13 Gorffennaf, mewn sesiwn Cyfiawnder Cymdeithasol a Newid Hinsawdd Plant yng Nghymru, bu plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn trafodaethau am gynnig Llywodraeth Cymru i wahardd cynhyrchion plastig untro problemus, gan gynnwys fêps, a'r effeithiau y maent yn eu cael ar blant a phobl ifanc. Trwy weithgareddau ac adnoddau rhyngweithiol, roedd y sesiwn yn annog deialog agored, gan feithrin meddwl yn feirniadol, ac yn gyfle i bobl ifanc fynegi eu barn ac ymateb i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn archwilio effeithiau ar blant a phobl ifanc. Gwnaeth Plant yng Nghymru hefyd greu arolwg i bobl ifanc gymryd rhan ynddo yn eu hwythnos breswyl dros yr haf.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru hefyd greu arolwg ar-lein ynghylch y gwaharddiad arfaethedig ar gynhyrchion plastig untro problemus, gan gynnwys fêps. Rhannwyd arolwg ar-lein gydag Eco-Sgolion i blant a phobl ifanc ei gwblhau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, wedi'i anelu at fyfyrwyr Ysgolion Uwchradd. Rhannwyd hefyd y cefndir polisi a'r holiadur, ar ffurf copi caled, gyda phlant a phobl ifanc rhwng 14 a 18 oed yng nghynhadledd 'Ein Daear, Ein Dyfodol' ym mis Gorffennaf.

## Crynodeb o'r ymatebion

Derbyniwyd deuddeg ymateb a dyma grynodeb ohonynt:

- Roedd 10 ymateb (83%) yn cytuno y byddai gwahardd fêps yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.
- Roedd 2 ymateb (17%) o'r farn y ***byddai*** gwahardd fêps untro yn arwain at bobl ifanc yn dechrau ysmygu gan fod fêps yn ddewis amgen i ysmygu. Roedd 7 ymateb (58%) o'r

farn ***na fyddai*** gwahardd fêps untro yn arwain at bobl ifanc yn dechrau ysmygu oherwydd cost sigaréts, eu bod yn anoddach i gael gafael arnynt, yn fwy niweidiol, ac yn anodd eu cuddio oherwydd yr arogl. Hefyd, mae ysmygu dan oed wedi'i wahardd gan y gyfraith. Roedd ymatebwyr hefyd o'r farn bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn fepio oherwydd y blasau, rhywbeth nad oes gan sigaréts. Roeddent hefyd o'r farn y gallai rhai droi at ddefnyddio 'SNUS'. Roedd 3 ymateb (25%) yn ansicr a fyddai'r gwaharddiad ar fêps untro yn arwain at bobl ifanc yn dechrau ysmygu ond yn ystyried ei fod yn bosibl. Roeddent hefyd o'r farn y gallai annog pobl ifanc i ddefnyddio fêps y gellir eu hailddefnyddio fel y dewis agosaf yn lle fêps untro.
- 10 (83%) ymateb - roedd 8 (80%) yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc sydd am roi'r gorau i fepio, ond roedd hyn wedi'i gyfyngu i'r cymorth sydd ar gael yn yr ysgol, yr oeddent o'r farn na fyddai pob person ifanc yn ymwybodol ei fod ar gael iddynt. Nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw gymorth arall yn unman arall oherwydd y parhad yn nifer y siopau fêps sydd yn agor. Nid oedd 2 ymateb (20%) yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc sydd am roi'r gorau i fepio. Mae'r ymatebwyr yn dyst i lawer o bobl ifanc yn fepio heb unrhyw ymyrraeth.
- Roedd 2 ymateb (17%) o'r farn na fyddai gwahardd fêps untro yn effeithio arnynt ond y gallai gael effaith fawr ar eraill.
- Roedd 10 (83%) ymateb o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gyfathrebu â phlant a phobl ifanc drwy gyflwyniadau sy'n nodi'r niwed i'r amgylchedd, i iechyd ac i fywyd gwyllt a achosir gan fêps untro/cynhyrchion plastig untro. Hefyd, y dylid sicrhau bod cynhyrchion amgen, cynaliadwy, mwy deniadol ar gael.

### Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn y dyfodol

Yn dilyn y pryderon a godwyd ynghylch effeithiau gwaharddiadau ar blant a phobl ifanc yn ystod ymgynghoriad 2023 a'r ymatebion a dderbyniwyd gan Eco-Sgolion, penderfynodd Llywodraeth Cymru fod angen ymgysylltu ymhellach â phlant a phobl ifanc i rannu gwybodaeth polisi am y gwaharddiadau, a rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc am y cymorth rhoi'r gorau i ysmygu sydd ar gael iddynt.

Felly, comisiynodd Llywodraeth Cymru Youth Friendly i greu fersiynau 'cyfeillgar i ieuenctid' o'n cynigion polisi a'n holiaduron i barhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy 2024/25. Bydd hyn yn sicrhau bod barn plant yn cael ei hystyried a'i hadlewyrchu yn nyluniad terfynol y gwaharddiad a'i weithredu. Mae hyn yn cynnwys pan gaiff y gwaharddiad ei adolygu a'i werthuso i asesu ei effaith a'i effeithiolrwydd. Bydd cynnwys plant a phobl ifanc yn gynnar yn ein syniadau am y dyfodol yn dylanwadu ar newid ymddygiad cadarnhaol a meddwl yn greadigol ymhlith ein cenhedlaeth nesaf. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2025, i gynnwys y canfyddiadau hyn.

## Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i nodi wedi tanlinellu'r angen i gymryd camau yn erbyn y defnydd o fêps untro i ddileu eu heffaith ar yr amgylchedd. Er bod sail amgylcheddol i'r prif amcan, mae'n amlwg y bydd y gwaharddiad hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd plant a phobl ifanc. Oherwydd yr ystod o faterion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â fêps untro, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno â Llywodraeth y DU (sy'n deddfu dros Loegr), Llywodraeth yr Alban a swyddogion Gogledd Iwerddon i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd gwerthu a chyflenwi fêps untro.

## Effeithiau ar Blant a Phobl Ifanc

### Effeithiau cadarnhaol

Gallai'r gwaharddiad ar fêps untro gael sawl effaith gadarnhaol ar hawliau plant, yn enwedig ar eu hawl i iechyd, addysg ac amgylchedd glân. Mae rhai o'r manteision posibl yn cynnwys:

- Trwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mae'n amlwg eu bod yn deall yr effaith gadarnhaol y mae eu gweithredoedd a'u penderfyniadau yn ei chael ar faterion amgylcheddol megis sbwriel a gwastraff. Maent yn dangos brwdfrydedd dros allu dod yn fwy cynaliadwy a moesegol, gan ddangos dealltwriaeth o'r effaith y mae eu dewisiadau a'u gwerthoedd yn ei chael ar eu hamgylchedd a'u cymunedau. Er enghraifft, maent yn aml yn dewis defnyddio'r opsiynau amgen sydd ar gael yn lle plastigau ac eitemau untro. Mae ymgysylltu â'r materion hyn yn grymuso plant a phobl ifanc ac yn eu helpu i ddeall hefyd sut y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnyn nhw ac ar eraill.

- Mae mynd i'r afael â'n gorddefnydd o blastigau untro yn fater sydd wedi'i hyrwyddo gan lawer o bobl ifanc. Bwriad ein cynigion yw adeiladu ar hyn. Rydym am newid ymddygiad defnyddwyr tuag at ddefnyddio llai o eitemau untro a hyrwyddo ein henw da byd-eang o fod ar flaen y gad wrth ailgylchu. Mae newid hinsawdd wedi'i nodi fel un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu ein cenedlaethau'r dyfodol; bydd rhoi'r cynigion hyn ar waith yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ddiogelu ein hamgylchedd, ein hiechyd a'n llesiant yn y tymor byr ac ar genedlaethau'r dyfodol.

- Bydd y gwaharddiad yn lleihau faint o sbwriel, fêps untro a'r deunydd pacio cysylltiedig yn benodol, sy'n cael ei daflu - problem sy'n cynyddu yn ein cymunedau ledled Cymru, o'n trefi a'n dinasoedd prysur i'n harfordiroedd hardd a'n tirweddau gwledig trawiadol. Fodd bynnag, gall clirio sbwriel o leoliadau gwledig yn enwedig fod yn anodd o ran logisteg oherwydd eu lleoliadau anghysbell a'u tir heriol, er enghraifft ardaloedd mynyddig megis Yr Wyddfa, man prydferth lleol poblogaidd sy'n denu teuluoedd, lle maent wedi adrodd bod "*taflu fêps untro yn troi'n broblem enfawr gyda nifer y fêps untro yn ychwanegu at y sefyllfa sbwriel sydd eisoes yn amhosibl ei rheoli gyda gwirfoddolwyr yn casglu symiau torcalonnus o'r gwastraff hwn*". Felly, bydd ein

cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y mater hwn trwy leihau ar unwaith faint o gynhyrchion fêps untro sy’n cael eu taflu fel sbwriel ac effaith gadarnhaol hirdymor o leihau faint o blastig a sylweddau gwenwynig eraill sy’n llygru’r amgylchedd.

- Trwy wahardd fêps untro, byddwn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd tymor hwy i blant a phobl ifanc. Mae cynhyrchu a chludo fêps untro yn cyfrannu at allyriadau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill sy’n cyfrannu at newid hinsawdd.

- Bydd ein cynigion hefyd yn cyfrannu at sicrhau mwy o fannau gwyrdd a naturiol glanach megis traethau, coedwigoedd, parciau a chefn gwlad. Bydd hyn yn cael y mantais posibl o wella llesiant meddyliol a chorfforol oherwydd bydd plant a phobl ifanc yn cael eu hannog i fwynhau eu hamgylchedd naturiol yn fwy, gan arwain at gydlyniant cymdeithasol, cymdeithasu a rhyngweithio ag eraill yn eu cymuned.

- Unwaith y bydd plastigau yn mynd i mewn i’r amgylchedd, nid ydynt yn diflannu ond yn dadelfennu’n ronynnau cynyddol lai o’r enw microblastigau. Bellach gellir dod o hyd i ficroblastigau yn rhannau mwyaf anghysbell y byd, gan gynnwys yr Arctig a gwaddod dyfnforoedd. Yn ddiweddar, canfuwyd microplastigau am y tro cyntaf yn Eira’r Antarctig, dŵr glaw a hyd yn oed gwaed dynol. Mae casgliad cynyddol o ymchwil yn dangos nid yn unig bod plastig yn llenwi cefnforoedd a gwylltiroedd y byd, ond ei fod hefyd yn treiddio i’n cyrff trwy’r aer rydym yn ei anadlu, y dŵr rydym yn ei yfed a’r bwyd rydym yn ei fwyta. Mae astudiaeth newydd wedi dangos bod microblastigau — gronynnau plastig bach llai na 5 mm ond yn fwy nag 1 micron — hyd yn oed yn bresennol mewn brychau dynol, gan beri risg bosibl i iechyd a datblygiad y ffetws. Fodd bynnag, bydd angen astudiaethau a thystiolaeth bellach i ddeall maint y risg. Bydd cyflwyno ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol trwy leihau ar unwaith nifer y cynhyrchion plastig sy’n cael eu taflu fel sbwriel, ac effaith gadarnhaol hirdymor o leihau faint o blastig sy’n cronni yn ein hamgylchedd. Bydd hyn yn lleihau'r effaith negyddol y mae sbwriel a llygredd plastig yn ei chael ar ein hamgylchedd a'n hiechyd a'n llesiant, gan sicrhau darparu’r gofynion iechyd mwyaf sylfaenol i blant a phobl ifanc, sef aer glân a dŵr diogel.

- Mae taflu cynhwyswyr e-hylif fêps yn sbwriel yn peri bygythiad penodol ddifrifol o lygredd amgylcheddol gan eu bod yn cynnwys crynodiadau uchel o nicotin gweddilliol. Yn ogystal â nicotin, mae e-hylifau yn cynnwys nifer o ychwanegion cyflasu, y gwyddys neu yr amheuir bod llawer ohonynt yn wenwynig neu â gwenwyn anhysbys. Er y gall lefel y gwenwynau mewn anweddau fêps fod yn is na’r hyn sydd ym mwg tybaco llosgadwy (gan nad ydynt yn cynnwys cynhyrchion hylosgi tybaco), mae anweddau o fêps yn ffynonellau cryf o lygredd aer amgylcheddol, yn enwedig aldehydau a charbon monocsid. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd y risgiau hyn yn parhau os bydd defnyddwyr presennol yn newid i ddewisiadau amgen y gellir eu hailddefnyddio.

- Gall fêps sydd wedi'u taflu hefyd fod yn ffynhonnell halogiad metelau yn yr amgylchedd, yn uniongyrchol o ganlyniad dadelfennu cydrannau electronig ac yn anuniongyrchol drwy e-hylifau halogedig. Ymhlith y metelau cyffredin sydd yng nghydrannau cynhyrchion fêps y mae alwminiwm, bariwm, cadmiwm, cromiwm, copr, haearn, plwm, nicel, arian, tun, a sinc. Mewn profion trwytholchi cydrannau fêps, roedd y plwm a ganfuwyd yn y trwytholch hyd at ddeg gwaith yn fwy na throthwy rheoleiddiol yr UD a bennir ar gyfer gwastraff peryglus. Felly, byddai'r gwaharddiad yn helpu i leihau faint o gemegion gwenwynig sy'n trwytholchi i'r amgylchedd o'r cynhyrchion hyn.

- Byddai'r gwaharddiad yn helpu i leihau plant yn dod i gysylltiad â nicotin, sy'n sylwedd caethiwus a niweidiol iawn a all effeithio ar ddatblygiad eu hymennydd, eu hwyliau, eu gallu i ganolbwyntio, eu cof ac ar eu dysgu. Gall nicotin hefyd gynyddu'r risg o broblemau cardiofasgwlaidd, anadlu ac iechyd meddwl yn nes ymlaen mewn bywyd. Gallai'r gwaharddiad hefyd leihau plant yn dod i gysylltiad â chemegion a thocsinau eraill sy'n bresennol mewn fêps untro, megis propylen glycol, glyserin, cyflasynnau, metelau a charsinogenau. Gall y sylweddau hyn achosi cosi poenus, llid, adweithiau alergaidd, a niwed i'r ysgyfaint, y llwnc, y geg a'r dannedd. Gall rhai ohonynt hefyd effeithio ar y system atgenhedlu a'r system imiwnedd.

- Gallai'r gwaharddiad atal plant rhag mynd yn gaeth i fepio, a rhag pontio i ysmygu sigaréts confensiynol, sydd hyd yn oed yn fwy niweidiol i'w hiechyd a'u llesiant. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae tua 10% o bobl ifanc rhwng 15 ac 16 oed yng Nghymru wedi rhoi cynnig ar fepio, ac mae 2% ohonynt yn fepio'n rheolaidd. Gall fepio weithredu fel llwybr i ysmygu, oherwydd gall normaleiddio'r ymddygiad, cynyddu chwilfrydedd a lleihau'r risg canfyddedig o ddefnyddio tybaco.

- Bydd y gwaharddiad yn gwella addysg ac ymwybyddiaeth plant am beryglon fepio ac ysmygu, a manteision byw bywyd iach a di-fwg. Gallai Llywodraeth Cymru, ynghyd ag ysgolion, rhieni, gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyfryngau, ddefnyddio'r gwaharddiad fel cyfle i ddarparu gwybodaeth gywir a dibynadwy i blant, a'u hannog i wneud dewisiadau cyfrifol ar sail gwybodaeth am eu hiechyd a'u llesiant.

- Gallai'r gwaharddiad wella presenoldeb a pherfformiad plant yn yr ysgol, gan y byddent yn llai tebygol o golli gwersi, cael problemau canolbwyntio, neu brofi symptomau diddyfnu oherwydd caethiwed nicotin. Gallai'r gwaharddiad hefyd leihau'r pwysau gan gyfoedion a bwlio y gallai rhai plant eu hwynebu gan blant eraill sy'n ysmygu neu'n fepio a chreu amgylchedd dysgu mwy diogel ac iach i bob plentyn.

## Effeithiau Negyddol

Fodd bynnag, gallai'r gwaharddiad ar fêps untro hefyd gael rhai effeithiau negyddol ar hawliau plant, yn enwedig ar eu hawl i fynegiant, cyfranogiad a hamdden. Mae rhai o'r anfanteision posibl yn cynnwys:

- Pan gaiff ei fewnanadlu, mae nicotin yn gyffur caethiwus iawn. Mae natur gaethiwus nicotin yn golygu y gall defnyddiwr ddod yn ddibynnol ar fêps pan fyddant yn eu defnyddio'n rheolaidd. Gall rhoi'r gorau i nicotin fod yn anodd iawn oherwydd mae'n rhaid i'r corff ddod i arfer â gweithio hebddo. Gall symptomau diddyfnu gynnwys blysiau, tymer flin, pryder, trafferth canolbwyntio, pen tost a symptomau meddyliol a chorfforol eraill.
- Gallai'r gwaharddiad dreisio hawl plant i fynegi eu barn, eu teimladau a'u dymuniadau ar fater sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif. Gallai'r gwaharddiad gael ei weld fel mesur nawddoglyd ac awdurdodaidd sy'n diystyru barn a dewisiadau plant ac mae'n cyflwyno un ateb yn unig efallai na fydd yn gweddu i anghenion ac amgylchiadau pawb.
- Gallai'r gwaharddiad effeithio ar hawl plant i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol ac artistig. Gallai fepio gael ei weld yn fath o hamdden, mwynhau a hunanfynegiant i rai plant, a allai ei ddefnyddio fel ffordd o ymdopi â straen, diflastod, pwysau gan gyfoedion neu ynysigrwydd cymdeithasol. Gall fepio hefyd fod yn rhan o ddiwylliant a hunaniaeth rhai plant, a allai ei gysylltu â cherddoriaeth, ffasiwn, celf neu isddiwylliannau penodol. Gallai'r gwaharddiad amddifadu plant o'r ffynonellau hyn o bleser, creadigrwydd a pherthyn, a'u gorfodi i ddod o hyd i ffyrdd eraill o fynegi eu hunain nad ydynt o bosibl mor foddhaol neu hygyrch.

## Camau Lliniaru

Er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau negyddol posibl y gwaharddiad ar hawliau plant, a gwneud y mwyaf o'r effeithiau cadarnhaol posibl, bydd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn cymryd y camau lliniaru canlynol:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad cynhwysfawr a chynhwysol gyda phlant a'u cynrychiolwyr, megis cynghorau ieuenctid, elusennau ac ysgolion i geisio eu barn, eu teimladau a'u dymuniadau am y gwaharddiad, ac i esbonio'r rhesymeg a'r dystiolaeth sydd y tu ôl iddo. Byddwn hefyd yn sicrhau bod barn plant yn cael ei hystyried a'i hadlewyrchu yn nyluniad terfynol y gwaharddiad a'i weithredu. Mae hyn yn cynnwys pan gaiff y gwaharddiad ei adolygu a'i werthuso i asesu ei effaith a'i effeithiolrwydd.

- Er mwyn sicrhau darparu gwybodaeth a chanllawiau clir a chyson i blant, rhieni ac athrawon, comisiynwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu Gwybodaeth a Chanllawiau ar Fepio i Ddysgwyr Oedran Uwchradd yng Nghymru. Mae'r canllawiau, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023, hefyd yn bodloni argymhelliad Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru 2022-23, i gyhoeddi canllawiau clir i ysgolion ar

reoleiddio fepio. Bwriad y canllawiau yw helpu ysgolion a lleoliadau addysg eraill i ymateb i’r defnydd o fêps. Ei nod yw helpu dysgwyr i ddeall effaith fepio ar eu hiechyd a'u llesiant, darparu gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i athrawon ac mae'n darparu gwybodaeth am ffyrdd o wreiddio addysgu a dysgu am fepio yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae’r canllawiau hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ffyrdd y gall ysgolion ymateb i’r defnydd o fêps yn eu lleoliad a sut i gefnogi pobl ifanc a allai ddod yn ddibynnol ar nicotin ac sydd am roi’r gorau iddo.

- Mae Iechyd a Llesiant yn rhan orfodol o’r Cwricwlwm newydd i Gymru, mae’n rhoi’r hyblygrwydd i athrawon addasu eu gwersi i weddu i faterion a heriau y mae eu disgyblion yn eu hwynebu. Dylai hyn gynnwys dysgu am effeithiau fepio a dyfeisiau fepio ar iechyd a llesiant fel rhan o addysg ehangach camddefnyddio sylweddau. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys cyngor i ysgolion ehangu eu polisïau ysmygu ac ymddygiad i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn fepio. Anogir ysgolion i ddatblygu hyn gyda dysgwyr, staff a’u cymuned ysgol ehangach. Mae pob ysgol uwchradd bellach yn addysgu'r cwricwlwm hwn i flwyddyn 7 ac 8, a bydd yr adnodd hwn yn cefnogi pob disgybl ysgol uwchradd.

- Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi darparu cymorth a gwasanaethau i blant y mae'r gwaharddiad yn effeithio arnynt, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn gaeth i fepio neu ysmygu, neu a allai wynebu anawsterau neu risgiau wrth roi'r gorau iddo neu gydymffurfio â'r gwaharddiad. Meddai Chris Emmerson, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru: “*Mae'r arferion gorau hyn yn darparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer cefnogi pobl ifanc sy'n fepio yng Nghymru. Drwy weithredu'r arferion hyn, gallwn fynd i'r afael yn well ag anghenion cymhleth plant a phobl ifanc sy'n cael trafferth gyda dibyniaeth ar fepio. Mae therapïau disodli nicotin, sydd eisoes yn cael eu cynnig i'r rhai dros 12 oed sy'n smygu, yn un dull a allai helpu plant a phobl ifanc allan o'u dibyniaeth ar fepio ochr yn ochr â dulliau cymorth eraill”.*

- Mae’r deunydd darllen cynyddol ar yr hyn sy’n ysgogi pobl ifanc i fepio yn nodi sawl ffactor megis pwysau gan gyfoedion, delwedd gymdeithasol, y canfyddiad bod risgiau iechyd fêps yn is o’u cymharu â sigaréts, ‘dim ond i roi cynnig arni’ ac oherwydd eu bod yn ‘hoffi’r blasau’. Mae rhesymau cyffredin eraill dros fepio yn cynnwys i gefnogi iechyd meddwl, lleihau lefelau straen, a mynd i'r afael â hunan-barch isel. Defnyddir fêps fel mecanwaith ymdopi canfyddedig i fynd i'r afael â'r rhain. Fodd bynnag, mae pobl ifanc yn eu harddegau sy’n fepio i leddfu straen yn adrodd lefelau straen sylweddol uwch na phobl ifanc nad ydynt yn fepio. Mae’r canfyddiadau hyn yn debyg i ymddygiad ysmygu sigaréts ymhlith y glasoed, lle mae canfyddiad yn aml bod ysmygu sigaréts yn ffordd o leddfu straen. Gall cefnogi llesiant meddyliol dysgwyr drwy weithredu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol alluogi ysgolion i ddiogelu a gwella llesiant meddyliol pobl ifanc, gan eu helpu i feithrin gwydnwch a

lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn cymryd rhan mewn ymddygiadau peryglus neu gamfanteisio arnynt o ganlyniad i fepio.

- Hefyd, drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, cawsom wybod am fodel o arfer da mewn bwrdd iechyd lleol gyda'r nod o gynnig cymorth ymddygiad i roi'r gorau i fepio ac ysmygu tybaco, a rheoli diddyfnu nicotin (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2024). Datblygwyd 'Llwybr Fepio Pobl Ifanc' mewn ymateb i adroddiadau am y defnydd eang o fêps mewn ysgolion uwchradd yn Sir Benfro gyda'r nod o drafod dibyniaeth ar nicotin a diddyfnu nicotin, cynnig cymorth ymddygiad a therapi disodli nicotin i helpu gyda rhoi'r gorau i fepio neu ysmygu neu gynnig ymyriad lleihau niwed i'w helpu i ymdopi â'r diwrnod ysgol.

- Mae pryder ymhlith rhai rhanddeiliaid y bydd gwaharddiad yn arwain at gynnydd yn y cyflenwad anghyfreithlon o fêps untro trwy gyfoedion neu wefannau cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr gorfodi, gan gynnwys Safonau Masnach Cymru, i atal plant a phobl ifanc rhag cael mynediad at unrhyw fêps tafladwy a ddosbarthir yn anghyfreithlon unwaith y caiff gwaharddiad ei gyflwyno.

## Casgliad

Bydd y gwaharddiad ar fêps untro gan Lywodraeth Cymru yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar hawliau plant, fel y'i diffinnir gan Fonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Gallai'r gwaharddiad fod o fudd i iechyd, addysg ac amgylchedd plant, ond gallai hefyd niweidio eu mynegiant, eu cyfranogiad a'u hamdden. Er mwyn cydbwyso'r effeithiau hyn, ac i sicrhau bod lles pennaf y plentyn yn flaenoriaeth, mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd y camau lliniaru a nodir yn yr asesiad hwn o'r effeithiau yn grymuso plant a phobl ifanc i wneud y dewisiadau cywir. Trwy barhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc a'r rhai sy'n eu cynrychioli, byddwn yn parhau i ddiogelu a gwella llesiant meddyliol pobl ifanc, gan eu helpu i feithrin cadernid a lleihau cymryd rhan mewn ymddygiadau peryglus.

Mae prif effeithiau'r polisi ar hawliau plant wedi'u crynhoi isod, yn ôl yr erthyglau CCUHP perthnasol a'i Brotocolau Opsiynol.

| Erthyglau'r CCUHP neu Brotocol Opsiynol | Yn Gwella (X) | Yn Herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| Erthygl 3: Lles pennaf y plentyn | x | | Nod y polisi yw diogelu lles pennaf plant a phobl ifanc trwy atal a lleihau eu hamlygu i niwed dibyniaeth ar nicotin, sylweddau gwenwynig, a gwastraff amgylcheddol a ddaw o fêps untro. Mae'r polisi hefyd yn cydnabod y gall rhai pobl ifanc ddefnyddio fêps |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | untro fel offeryn lleihau niwed i roi'r gorau i ysmygu, ac y gallai eu gwahardd arwain at ganlyniadau anfwriadol, megis eu harwain at gynhyrchion anghyfreithlon neu at gynhyrchion tybaco eraill (h.y. sigaréts). Felly, mae'r polisi wedi'i gydbwyso gan fesurau eraill i gefnogi pobl ifanc sydd am roi'r gorau i ysmygu, megis darparu mynediad at therapi amnewid nicotin, cwnsela ac addysg. |
| Erthygl 6: Yr hawl i fyw, goroesi a datblygu. | x | | Mae'r polisi yn cefnogi hawl plant a phobl ifanc i fyw, goroesi a datblygu trwy ddiogelu eu hiechyd corfforol a meddyliol rhag effeithiau niweidiol fepio a fêps untro. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gall fepio ddod â phobl ifanc i gysylltiad â nicotin, a all effeithio ar ddatblygiad eu hymennydd, eu gweithrediad gwybyddol, a'u hymddygiad.<br><br>Gall fepio hefyd ddod â phobl ifanc i gysylltiad â chemegau eraill, megis propylen glycol, glyserol, cyflasynnau a metelau, a all achosi cosi poenus, llid, a niwed i'r system anadlol. Yn ogystal, gall fepio gynyddu'r risg o haint, anaf, a gwenwyno o gynhyrchion halogedig neu ddiffygiol. Mae fêps untro yn peri risgiau iechyd ychwanegol, gan eu bod yn aml heb eu rheoleiddio, o ansawdd gwael, ac yn cynnwys lefelau uwch o nicotin a sylweddau eraill na fêps y gellir eu hailddefnyddio. Bydd y gwaharddiadau hefyd yn mynd i'r afael â'r effeithiau amgylcheddol negyddol sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu, defnyddio a gwaredu fêps untro. |
| Erthygl 12: Yr hawl i fynegi barn ac i'r farn honno gael ei hystyried. | x | x | Mae'r polisi yn parchu hawl plant a phobl ifanc i fynegi eu barn ac i'r farn honno gael ei hystyried ar faterion sy'n effeithio arnynt, trwy eu cynnwys yn y broses ymgynghori a gwneud penderfyniadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio barn a phrofiadau pobl ifanc ar fepio a fêps untro ac wedi eu hystyried wrth ddatblygu'r polisi. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod gan bobl ifanc safbwyntiau amrywiol ac ychydig yn wahanol ar fepio a fêps untro, a'u bod am gael eu hysbysu, eu cefnogi a'u grymuso i wneud eu dewisiadau eu hunain.<br><br>Nod y polisi yw adlewyrchu'r safbwyntiau hyn drwy ddarparu gwybodaeth, canllawiau, a chefnogaeth glir i bobl ifanc ar roi'r gorau i fepio ac ysmygu, yr effeithiau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | amgylcheddol, yn ogystal â gorfodi'r gwaharddiad ar fêps untro. |
| Erthygl 13: Hawl i ryddid mynegiant. | x | x | Gallai'r polisi gyfyngu ar hawl plant a phobl ifanc i ryddid mynegiant, trwy gyfyngu ar eu mynediad at fêps untro, y gallant eu defnyddio fel math o hunanfynegiant, hunaniaeth neu gymdeithasu. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod rhai pobl ifanc yn fepio neu'n defnyddio fêps untro am resymau megis chwilfrydedd, arbrofi, pwysau gan gyfoedion, ffasiwn, neu wrthryfela.<br><br>Gallai'r polisi hefyd effeithio ar hawl plant a phobl ifanc i geisio, derbyn a rhannu gwybodaeth, trwy wahardd fêps untro, y gallant eu defnyddio fel ffynhonnell gwybodaeth, addysg neu adloniant.<br><br>Mae'r dystiolaeth yn dangos bod rhai pobl ifanc yn cael eu denu at fêps untro gan eu blasau, eu lliwiau, eu dyluniadau, neu'r marchnata ohonynt, ac y gallant eu defnyddio i ddysgu am fepio, ysmygu neu faterion iechyd. Nod y polisi hefyd yw cydbwyso hawl plant a phobl ifanc i ryddid mynegiant a gwybodaeth, eu hawl i iechyd a llesiant ac amgylchedd glân, a allai gael ei beryglu gan fepio a fêps untro. |
| Erthygl 17: Yr hawl i wybodaeth gan y cyfryngau | x | | Gallai'r polisi wella hawl plant a phobl ifanc i gael mynediad at wybodaeth fwy dibynadwy gan y cyfryngau, trwy leihau eu hamlygiad i wybodaeth gamarweiniol, anghywir neu niweidiol am fepio a fêps untro, yn dilyn y gwaharddiad ar eu cyflenwi, gan na fydd y cynhyrchion hyn bellach ar gael. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod rhai pobl ifanc yn cael eu dylanwadu gan y cyfryngau, megis y cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau ar-lein, neu ddylanwadwyr, i fepio neu ddefnyddio fêps untro, heb fod yn ymwybodol o risgiau, rheoliadau neu ffynonellau'r cynhyrchion hyn.<br><br>Gallai'r polisi hefyd herio hawl plant a phobl ifanc i wybodaeth gan y cyfryngau, trwy gyfyngu ar eu mynediad at wybodaeth amrywiol, berthnasol neu fuddiol am fepio a fêps untro. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod rhai pobl ifanc yn defnyddio'r cyfryngau, megis fforymau ar-lein, blogiau, neu bodlediadau am wybodaeth, cyngor neu gymorth ar fepio, ysmygu neu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | faterion iechyd, ac y gallant ystyried bod yr wybodaeth hon yn eu grymuso, yn gymorth ac yn ddefnyddiol.<br><br>Nid yw'r polisi yn atal plant a phobl ifanc rhag cael mynediad at wybodaeth gan y cyfryngau am fepio neu fêps untro, ar yr amod nad yw'n ymwneud â gwerthu neu gyflenwi'r cynhyrchion hyn. Nod y polisi hefyd yw sicrhau bod yr wybodaeth y mae plant a phobl ifanc yn ei chael gan y cyfryngau am fepio a fêps untro yn glir, yn gywir ac yn seiliedig ar dystiolaeth. |
| Erthygl 24: Yr hawl i iechyd a gwasanaethau iechyd. | x | | Mae'r polisi yn hyrwyddo hawl plant a phobl ifanc i iechyd a gwasanaethau iechyd, drwy atal a lleihau dod i gysylltiad â niwed fepio a fêps untro. Mae hyn yn cynnwys rhoi mynediad iddynt at wasanaethau iechyd a all eu helpu i roi'r gorau i ysmygu neu fepio. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gall fepio a fêps untro gael effeithiau negyddol ar iechyd pobl ifanc, megis dibyniaeth ar nicotin, problemau anadlu, haint, anaf neu wenwyno.<br><br>Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos y gall fepio a fêps untro gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd pobl ifanc, megis eu helpu i roi'r gorau i ysmygu, lleihau dod i gysylltiad â mwg tybaco, neu wella eu hunan-barch, eu hwyliau neu eu hansawdd bywyd.<br><br>Nod y polisi yw gwneud y mwyaf o'r manteision a lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â fepio a fêps untro i bobl ifanc, trwy wahardd gwerthu a chyflenwi fêps untro. Mae'r cynhyrchion hyn yn fwy niweidiol ac yn llai effeithiol na fêps y gellir eu hailddefnyddio, a gellir cefnogi pobl ifanc sydd am roi'r gorau i ysmygu neu fepio, trwy wasanaethau iechyd megis therapi amnewid nicotin, cwnsela ac addysg. |
| Erthygl 29: Yr hawl i addysg. | x | | Mae'r polisi yn cefnogi hawl plant a phobl ifanc i addysg, drwy roi gwybodaeth a chanllawiau iddynt ar fepio a fêps untro, a thrwy greu amgylchedd dysgu diogel ac iach ar eu cyfer. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gall fepio a fêps untro effeithio ar addysg pobl ifanc, megis drwy dynnu eu sylw o'u hastudiaethau, amharu ar eu presenoldeb neu eu hymddygiad, neu eu peryglu i fwlio neu bwysau gan gyfoedion. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos y gall fepio a fêps untro wella addysg pobl ifanc, megis trwy ysgogi eu chwilfrydedd, eu creadigrwydd, neu eu meddwl yn feirniadol, neu drwy roi cyfleoedd iddynt ddysgu am fepio, ysmygu neu faterion iechyd. Nod y polisi yw gwella addysg pobl ifanc am fepio a fêps untro, trwy roi gwybodaeth a chanllawiau clir a chywir iddynt, drwy'r cwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol. Trwy wahardd gwerthu a chyflenwi fêps untro, rydym hefyd yn cael gwared ar gynhyrchion a allai amharu ar eu dysgu neu eu llesiant. |
| Erthygl 31: Yr hawl i hamdden, chwarae a diwylliant. | x | | Gallai'r polisi effeithio ar hawl plant a phobl ifanc i hamdden, chwarae a diwylliant, drwy gyfyngu ar eu mynediad at fêps untro, y gallant eu defnyddio fel math o hamdden, chwarae neu ddiwylliant. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod rhai pobl ifanc yn fepio neu'n defnyddio fêps untro am resymau megis i fwynhau, ymlacio neu gael hwyl. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod rhai pobl ifanc yn fepio neu'n defnyddio fêps untro fel rhan o'u diwylliant, megis eu his-ddiwylliant, eu hunaniaeth neu eu cymuned.<br><br>Gallai'r polisi gyfyngu ar y cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwarae neu ddiwylliant sy'n ymwneud â fepio neu fêps untro, a gallai effeithio ar eu hymdeimlad o berthyn, eu mynegiant neu eu cyfranogiad.<br><br>Fodd bynnag, byddai'r polisi yn helpu i leihau effaith negyddol taflu sbwriel, llygredd aer, a chemegau gwenwynig sy'n trwytholchi i'r amgylchedd o'r cynhyrchion hyn. Bydd hyn yn helpu i ddarparu amgylchedd mwy diogel i blant a phobl ifanc chwarae ynddo, ac yn darparu'r gofynion iechyd mwyaf sylfaenol i blant a phobl ifanc, sef aer glân a dŵr diogel. |
| Erthygl 33: Yr hawl i ddiogelwch rhag cyffuriau anghyfreithlon. | x | | Mae'r polisi yn diogelu hawl plant a phobl ifanc i gael eu diogelu rhag cyffuriau anghyfreithlon, drwy atal a lleihau dod i gysylltiad â fêps untro a allai gynnwys sylweddau anghyfreithlon, megis canabis, canabinoid synthetig, neu sylweddau seicoweithredol eraill. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r dystiolaeth yn dangos bod rhai pobl ifanc yn defnyddio fêps untro a allai gynnwys sylweddau anghyfreithlon, naill ai'n fwriadol neu'n ddiarwybod, ac y gall hyn arwain at ganlyniadau iechyd a chyfreithiol difrifol iddynt. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod rhai pobl ifanc yn defnyddio fêps untro a allai gynnwys sylweddau anghyfreithlon, fel ffordd o arbrofi, hunan-feddyginiaethu, neu ymdopi â straen, pryder neu drawma.<br><br>Nod y polisi yw atal a lleihau'r defnydd o fêps untro a allai gynnwys sylweddau anghyfreithlon, trwy wahardd gwerthu a chyflenwi fêps untro, sy'n fwy tebygol o fod wedi'u halogi neu eu hamhuro na fêps y gellir eu hailddefnyddio. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth, canllawiau a chymorth i bobl ifanc ar risgiau, rheoliadau a ffynonellau'r cynhyrchion hyn. |
| Erthygl 36: Yr hawl i ddiogelwch rhag camfanteisio. | x | | Mae'r polisi yn diogelu hawl plant a phobl ifanc i gael eu diogelu rhag camfanteisio arnynt, drwy atal a lleihau dod i gysylltiad â chamfanteisio gan y diwydiant fepio, a allai eu targedu â fêps untro. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod camfanteisio ar rai pobl ifanc gan y diwydiant fepio, a allai ddefnyddio strategaethau marchnata ymosodol, twyllodrus neu anfoesegol i werthu neu gyflenwi fêps untro iddynt, heb ddatgelu risgiau, rheoliadau neu ffynonellau'r cynhyrchion hyn.<br><br>Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod camfanteisio ar rai pobl ifanc gan y diwydiant fepio, a allai ddefnyddio fêps untro fel ffordd o'u recriwtio neu eu cadw fel cwsmeriaid, drwy achosi iddynt ddod yn gaeth i nicotin, neu drwy eu hannog i newid i gynhyrchion tybaco eraill.<br><br>Nod y polisi yw atal a lleihau camfanteisio ar bobl ifanc gan y diwydiant fepio, trwy wahardd gwerthu a chyflenwi fêps untro, sy'n fwy proffidiol a caethiwus na fêps y gellir eu hailddefnyddio, a thrwy orfodi'r rheoliadau presennol ar oedran gwerthu, hysbysebu a labelu cynhyrchion fepio. |

Ni allwn ragweld unrhyw effeithiau posibl o'r ddeddfwriaeth arfaethedig, ar Hawliau Dinasyddion yr UE (fel y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) sy'n ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

## 1. Cyngor a phenderfyniad Gweinidogion

Mae'r cynnig polisi yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil cadarn ar effeithiau fêps untro ar yr amgylchedd ac ar iechyd, yn ogystal ag ar farn gwahanol randdeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, mae Llywodraeth Cymru yn cynghori Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i gymeradwyo'r polisi o wahardd gwerthu a chyflenwi fêps untro yng Nghymru, fel rhan o'r strategaeth ehangach i fynd i'r afael â llygredd plastig a'i effaith ar ein hamgylchedd, ein heconomi a'n hiechyd. Ein nod yw gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd adnoddau a lleihau gwastraff drwy ddilyn egwyddorion yr hierarchaeth wastraff: Arbed, Ailddefnyddio, Ailgylchu. Mae hyn yn cynnwys symud i ffwrdd o fodel cymryd, creu, gwastraffu a thuag at economi gylchol. Bydd y polisi hefyd yn mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc.

Disgwylir i'r polisi gael effeithiau cadarnhaol ar hawliau a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru, trwy ddiogelu eu hamgylchedd, eu hiechyd, eu lles pennaf a'u diogelu rhag camfanteisio arnynt. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth, canllawiau a chymorth iddynt ar roi'r gorau i fepio ac ysmygu. Disgwylir i'r polisi gael rhywfaint o effeithiau negyddol ar hawliau a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru, drwy gyfyngu ar eu rhyddid mynegiant, eu mynediad at wybodaeth, a'u gweithgareddau hamdden, chwarae a diwylliant. Mae'r posibilrwydd hefyd y gallai plant a phobl ifanc gael eu denu tuag at y farchnad ddu neu tuag at gynhyrchion tybaco eraill. Fodd bynnag, mae'n debygol y caiff yr effeithiau hyn eu gorbwyso gan fanteision y polisi, a gellir eu lliniaru gan fesurau eraill. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y polisi yn glir, yn gyson ac yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cael ei ategu gan strategaethau addysg, ymgysylltu a gorfodi.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn cytuno â'r cyngor ac yn cymeradwyo'r polisi o wahardd cyflenwi fêps untro yng Nghymru, yn amodol ar ei gymeradwyo gan y Senedd.

## 2. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

- *Yn dilyn penderfyniad y gweinidogion, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.*
- *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at reolwr gwe eich adran i'w cyhoeddi.*
- *Rhaid hefyd anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'u cwblhau at flwch post CRIA@gov.wales*

## 3. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i rymuso plant a phobl ifanc i wybod ac arfer eu hawliau, ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae Llywodraeth Cymru am ddiolch i'r holl blant a phobl ifanc sydd wedi cymryd yr amser i ymgysylltu â ni ac ymateb i'n harolygon. Mae eu barn yn hynod bwysig i ni ac wedi ein cynorthwyo i sicrhau y caiff y polisi, pan fydd mewn grym, ei ategu'n briodol gan yr wybodaeth a'r canllawiau cywir i blant a phobl ifanc.

Ein bwriad fydd briffio'r plant a phobl ifanc a fu'n ymgysylltu â ni unwaith y caiff y ddeddfwriaeth ei chyflwyno i'r Senedd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ei chynnydd. Er bod canllawiau ar fepio eisoes ar gael i ysgolion ac mae hyn yn ceisio tynnu sylw pobl ifanc at risgiau iechyd fepio, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid i ddeall pa wybodaeth, deunydd neu adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i roi'r wybodaeth a'r offer i bobl ifanc sydd eu hangen arnynt i ddeall effeithiau fepio ac i gadw'n iach.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc i'w hysbysu am gynnydd y polisi hwn ond hefyd i ymgysylltu â nhw ynghylch agenda ehangach Llywodraeth Cymru i leihau cynhyrchion untro sy'n cael eu taflu'n sbwriel ar ein strydoedd ac yn ein mannau gwyrdd, lleihau llygredd a mynd i'r afael â'r argyfwng Newid Hinsawdd.

*Os yw eich polisi yn effeithio ar blant a phobl ifanc, cofiwch greu fersiynau sy'n addas i blant o unrhyw ddogfen gyhoeddus sy'n ymwneud â'ch cynnig. Cysylltwch â'r Gangen Plant am gyngor pellach.*

## 4. Monitro ac Adolygu

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adolygu'r polisi o wahardd gwerthu a chyflenwi fêps untro yng Nghymru, drwy gasglu a dadansoddi data a thystiolaeth ar gyffredinrwydd, patrymau a chanfyddiadau fepio a fêps untro ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru, yn ogystal ag ar ganlyniadau iechyd, cymdeithasol ac amgylcheddol y polisi.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro ac yn adolygu'r polisi drwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, megis gweithwyr iechyd proffesiynol, academyddion a chynrychiolwyr y diwydiant, i ofyn am eu profiadau a'u hadborth ar y polisi, ei weithredu, a'i effeithiau.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro ac yn adolygu'r polisi drwy ddiweddaru'r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant yn unol â hynny, a thrwy ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen bolisi.

- Amlinellwch pa fecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith er mwyn adolygu'r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant hwn.

- Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau ar y polisi neu ar ei weithredu?

- Ni ddylai dyfeisiau fepio gael eu defnyddio gan blant a phobl ifanc.
- Mae'n anghyfreithlon gwerthu dyfeisiau fepio sy'n cynnwys nicotin i unrhyw un o dan 18 oed neu i oedolion eu prynu ar ran pobl ifanc dan 18 oed.
- Gellir riportio'r rhai sy'n gwerthu neu yr amheuir eu bod yn gwerthu naill ai fêps nicotin neu gynhyrchion tybaco i bobl ifanc dan 18 oed yn ddienw i ‘Dim esgus. Byth.’